Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# SIFT

Gwelliannau Cynaliadwyedd i Dimau
Sustainability Improvements for Teams

## Canllaw Defnyddiol

Gweithdy i hwyluso'r broses o ddysgu ac arbrofi wrth ymgorffori'r pum ffordd o weithio

Cefnogi'r gwaith o gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

SUSTAINABLE DEVELOPMENT GOALS



# CYNNWYS


**CEFNDIR** – CYN Y GWEITHDY

Pam mae angen i ni weithredu er mwyn ymgorffori datblygu cynaliadwy? **4**
Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy **4**
Adnoddau **5**
SIFT: adnodd i rymuso timau **7**
Sut mae SIFT wedi cael ei ddatblygu? **7**
Amcanion dysgu **8**
Dull gweithredu cyfranogol **9**
Gwelliant parhaus **9**
Sut mae SIFT yn wahanol? **10**
Yr agweddau ymarferol ar weithdy SIFT **10**
Rolau gweithdy SIFT **11**

**GWEITHDY SIFT**

Dull gweithredu cytûn **12**
Adolygiad o lenyddiaeth ac adnoddau **13**
Darganfod **13**
Breuddwydio ac Ymchwilio **14**
Dylunio **16**
Y camau nesaf **19**
Myfyrdodau ac adborth **19**
Gorffen **19**

**GWAITH DILYNOL** – AR ÔL Y GWEITHDY

Datblygu a Chyflawni **20**
Adolygu **21**
Rhannu **22**
Ailadrodd **22**

ATODIADAU **23**




## DEUNYDD DARLLEN CYN Y GWEITHDY → GWEITHDY SIFT → GWAITH DILYNOL

### DEUNYDD DARLLEN CYN Y GWEITHDY

- Datblygu Cynaliadwy a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Beth yw SIFT?
- Beth i'w ddisgwyl
- Paratoi ar gyfer eich gweithdy SIFT

### GWEITHDY SIFT

- 5 — Dull gweithredu cytûn
- 15 — Adolygiad o lenyddiaeth ac adnoddau
- 25 — Darganfod
- 30 — Breuddwydio ac Ymchwilio
- 30 — Dylunio
  - Canlyniadau
  - Mesurau
  - Cynllun diffiniedig
- 5 — Y camau nesaf
- 10 — Myfyrdodau ac adborth

### GWAITH DILYNOL

- Datblygu a Chyflawni
- Adolygu
- Rhannu
- Ailadrodd



## 2 AWR

**Yn ogystal â deunydd darllen ymlaen llaw**
ychwanegol a **gwaith dilynol** gan y tîm

# CEFNDIR

## Pam mae angen i ni weithredu er mwyn ymgorffori datblygu cynaliadwy?

Yn fyd-eang, fel mae'r holl ddata yn ei ddangos, mae'n rhaid i ni gyd weithredu er mwyn diogelu llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae ein cymdeithas yn wynebu heriau enfawr yn gynyddol, fel newid hinsawdd, materion diogelwch a heddwch, sy'n gofyn i ni gyd wneud newidiadau radical. Yng Nghymru, rhydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf 2015) gyfle gwirioneddol i ni ateb yr heriau hyn. Mae'n gosod cyfrifoldebau newydd ar gyrff cyhoeddus a'u staff i ymgorffori'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, sef y pum ffordd o weithio: hirdymor, atal, cynnwys, cydweithio ac integreiddio. Gall ein helpu i wneud y penderfyniadau cywir at y dyfodol, fel bod pawb yn mynd ati i leihau ein heffaith negyddol ac yn cael yr effaith gymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol gadarnhaol fwyaf posibl drwy ein gwaith beunyddiol. Gall ein cefnogi i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'n gilydd er mwyn helpu i drechu a lliniaru problemau amrywiol a wynebwn, fel unigrwydd, tlodi, tywydd eithafol ac anghydraddoldebau iechyd.

## Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Cyn i chi ddechrau gweithdy SIFT, bydd yn ddefnyddiol i chi ymgyfarwyddo â Deddf 2015 a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, neu'r pum ffordd o weithio, y mae'r ddeddfwriaeth yn eu mandadu. Y pum ffordd o weithio yw:



**Hirdymor**



**Atal**



**Integreiddio**



**Cydweithio**



**Cynnwys**

Yn Saesneg, ystyr SIFT yw 'Gwelliannau Cynaliadwyedd i Dimau' ac mae gweithdy SIFT yn cael ei ddatblygu i gefnogi'r gwaith o gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n gwneud y canlynol:

- gwneud cyrff cyhoeddus yn atebol am ymgorffori'r pum ffordd o weithio yn briodol yn eu holl waith;
- ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ddangos sut maent wedi gwneud hyn. Mae gweithdai SIFT yn creu sail dystiolaeth a gall y dystiolaeth hon gael ei hymgorffori yn amcanion y sefydliad er mwyn cefnogi gwell dysgu, cynllunio, cydweithio, a chyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

# Adnoddau

Edrychwch ar gynifer o'r adnoddau canlynol â phosibl cyn eich gweithdy SIFT. Byddant yn eich helpu i ddod i wybod y cysyniadau y byddwch yn eu hystyried yng nghyd-destun eich gwaith eich hun yn ystod y gweithdy.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - Yr Hanfodion**
Mae Deddf 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.
https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/wfg-essentials-guide-cy.pdf

**Stori Megan**
Animeiddiad byr sy'n egluro effaith gadarnhaol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy gydol bywyd Megan, ac yn dweud mwy wrthych am yr hyn mae cyrff cyhoeddus yn ei wneud a pham. https://youtu.be/P0M-CnL9FBc

**Datganiad Barn eich Sefydliad ar Gynaliadwyedd (os yw ar gael)**
Edrychwch am ddatganiad neu strategaeth eich sefydliad ar gynaliadwyedd a llesiant. Un enghraifft yw Datganiad Llesiant Iechyd Cyhoeddus Cymru, sydd ar gael yn: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/PHW%20H%26SH%20Well-being%20Statement%20%26%20Objectives%20PDF%28w%29.pdf

**Ffilmiau The Story of Stuff**
Mae ffilm 22 munud ar 'The Story of Stuff' yn fan cychwyn da i ddeall cynaliadwyedd, systemau cymhleth a gwneud penderfyniadau mewn ffordd integredig. Mae 'The Story of Solutions' (9 munud) yn ddefnyddiol i ysgogi meddylfryd creadigol ar gyfer gweithdai SIFT. https://storyofstuff.org/movies/

**Astudiaeth achos gorfforaethol gan Interface flooring**
Ffilm wyth munud am brosiect 'Networks' sy'n dangos y pum ffordd o weithio. Yn ôl Interface bu ei ddull o ymdrin â chynaliadwyedd yn gyfrifol am wydnwch yn ystod argyfwng ariannol 2008/2009 – pan wynebodd y rhan fwyaf o gwmnïau golledion gwnaeth Interface barhau i wneud elw. https://www.youtube.com/watch?v=DX6Uidpg3VM
Crynodeb ysgrifenedig a ffeithluniau: http://net-works.com/about-net-works/

**Ail-greu Sefydliadau**
Mae sawl enghraifft o ddarpariaeth syml sy'n canolbwyntio ar gleifion ym maes gofal iechyd. Mae Buurtzorg wedi chwyldroi strwythurau sefydliadol ac ymgorffori rhai o'r pum ffordd o weithio fel rhan o'i gamau arloesol.
https://www.buurtzorg.com/about-us/

**Economi Gylchol**
Ffyrdd newydd o feddwl a gwneud yn yr Economi Gylchol – astudiaethau achos ysgrifenedig:
https://www.ellenmacarthurfoundation.org/case-studies/selling-light-as-a-service
https://www.ellenmacarthurfoundation.org/case-studies/how-refurbishing-can-work-even-when-safety-andperformance-matter-the-most

**Green Impact**
Enghraifft o'r ffordd mae cyrff cyhoeddus fel y gwasanaeth iechyd a'r frigâd dân yn mabwysiadu rhaglenni cynnwys cyflogeion er mwyn gwneud gwelliannau ym maes cynaliadwyedd. Gan ddechrau mewn Prifysgolion, mae gan Green Impact dimau o fewn GIG Lloegr (GIG Prifysgol Manceinion, Addenbrookes, Royal Bournemouth a Christchurch, Ysbytai Addysgu Newcastle, Gogledd Bryste, Ysbyty Athrofaol Bryste, Epson a St Helier, ac yn fuan Sandwell a Gorllewin Birmingham ac â Choleg Brenhinol y Meddygon Teulu mewn meddygfeydd). https://sustainability.unioncloud.org/greenimpact/programmes/in-the-community

**Rhagnodi cymdeithasol**
Enghraifft dda o atal ac integreiddio. Cafodd y gwaith o hybu iechyd, annibyniaeth a mynediad at wasanaethau lleol gan Ganolfan Bromley by Bow ei gynnwys mewn polisïau cenedlaethol gyntaf yn y 'Papur Gwyn' (2006) ac yna yn 'Our health, our care our say; NHS five year forward view' (2014) a 'General practice forward view' (2016) https://www.kingsfund.org.uk/publications/social-prescribing?gclid=Cj0KCQiAiKrUBRD6ARIsADS 2OLkvuoxvBEF4pENK-pXPmWe3GIEE-G7cmvyAubhClKZLwbPr3OKPvhQaAu7GEALw_wcB https://www.england.nhs.uk/blog/what-could-stps-learn-from-social-prescribing/

**Dull system gyfan o ymdrin â gordewdra**
Mae dull system gyfan o ymdrin â gordewdra yn edrych ar yr hyn sy'n gweithio'n dda o safbwynt y cryfderau, ynghyd â'r cyfleoedd i drechu gordewdra a chreu 'cymuned ddysgu' http://www.leedsbeckett.ac.uk/wholesystemsobesity/%20%20

**Changing Tack**
Gofynnodd Changing Tack: "What will it take to accelerate and scale systems-level sustainability solutions?" Gwnaeth yr ateb helpu i ddiffinio sut y bydd angen i arweinyddiaeth edrych. Chwe nodwedd arweinyddiaeth http://theregenerationroadmap.com/reports.html#/changing-tack.html

**Map Gofal Iechyd Cynaliadwy Abbvie**
Mae Abbvie (cwmni biofferyllol byd-eang) wedi cynhyrchu Map Gofal Iechyd Cynaliadwy sy'n ystyried heriau gofal iechyd yn sgil cynaliadwyedd a newid hinsawdd gyda'r nod o arloesi er mwyn ateb yr heriau hynny.
https://www.sustainable-healthcare.com/financial-sustainability/health-expenditures/prevention-essential-to-sustainability/

**Techneg Newid Mwyaf Sylweddol**
Mesur yr hyn sy'n bwysig, yn hytrach na mesur er mwyn mesur
https://www.odi.org/publications/5211-msc-most-significant-change-monitoring-evaluation

**Adroddiad arbennig yr IPCC ar 1.5 °C**
Rhyddhaodd y Panel Rhyngwladol ar Newid Hinsawdd (IPCC) ei adroddiad ym mis Hydref 2018 ar effeithiau a buddiannau cyfyngu ar gynhesu byd-eang i 1.5 °C. Bydd y gwaith o gyfyngu ar gynnydd mewn tymheredd byd-eang i 1.5 °C yn gofyn am newidiadau cyflym, radical, nas gwelwyd o'r blaen ym mhob agwedd ar gymdeithas ac mae'n bwysig oherwydd mae gwahaniaethau sylweddol mewn effaith rhwng 1.5 °C a 2 °C. Fodd bynnag, mae'n rhaid i newid ddigwydd yn gyflym.
http://ipcc.ch/report/sr15/

**Gwersi o Adolygiad o Lenyddiaeth ar Weithredu'r Pum Ffordd o Weithio**
https://icc.gig.cymru/pynciau/iechyd-a-chynaliadwyedd/

**Goodlife Goals**
Mae'r llyfryn 20 tudalen hwn yn canolbwyntio ar bob un o'r 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy gan awgrymu camau y gallwn i gyd eu cymryd yn bersonol ac yn broffesiynol nawr er mwyn diogelu'r dyfodol. Cyhoeddwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yr un pryd â'r Nodau hyn ac mae'r ddwy ddogfen a'u nodau yn gydnaws am eu bod ill dwy yn ceisio sicrhau dyfodol cynaliadwy.
https://docs.wbcsd.org/2018/09/Good_Life_Goals/Pack_of_Actions.pdf

# SIFT: adnodd i rymuso timau

Mae timau yn hanfodol wrth fynd ati i gyflawni'r pum ffordd o weithio mewn sefydliadau. Mae syniadau ynghylch gwelliannau ar lefel tîm yn golygu y gall gwasanaethau a gweithgareddau gael eu hailddylunio er mwyn ymgorffori'r pum ffordd o weithio wrth gynllunio a chyflawni. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), ar y cyd â Phrifysgol Kingston Llundain, wedi datblygu'r gweithdy cyfranogol dwy awr ymarferol hwn er mwyn cefnogi, galluogi a grymuso unrhyw dîm i wneud gwelliannau ym maes cynaliadwyedd drwy ddysgu mwy am y pum ffordd o weithio a sut y gall eu hymgorffori yn ei waith bob dydd. Mae SIFT yn annog timau i adolygu profiad neu arbenigedd presennol, nodi lle y gall hyn gael ei wella a'i rannu ag eraill, a lle y gall gael ei gymhwyso ymhellach er mwyn gwneud gwelliannau. Erbyn diwedd gweithdy SIFT, bydd timau wedi cael cyfle i fyfyrio ac ystyried lle y gallant ddefnyddio'r pum ffordd o weithio mewn perthynas â'u gwasanaethau, prosesau a chynlluniau, a byddant yn gallu dangos sut maent yn ymateb i Ddeddf 2015. Mae SIFT yn seiliedig ar y gred bod staff mewn timau mewn sefyllfa dda i greu a chefnogi newid drwy ddefnyddio eu profiad perthnasol, eu creadigrwydd a'u syniadau, yn ogystal â dysgu rhwng cymheiriaid, er mwyn ysbrydoli a chymell gwelliannau radical. Bwriedir i SIFT gael ei ailddefnyddio sawl gwaith er mwyn cynyddu hyder yn y gwaith o ymgorffori'r pum ffordd o weithio, llywio gweithgareddau cynllunio rheolaidd, a chefnogi cynnydd wrth gyflawni saith nod llesiant Deddf 2015.

# Sut mae SIFT wedi cael ei ddatblygu?

Mae gweithdy SIFT wedi cael ei brofi gyda 10 tîm yn cynnwys dros 75 o staff o bob rhan o Iechyd Cyhoeddus Cymru a thu hwnt. Rhoddodd pawb adborth er mwyn helpu i wella SIFT. Cafodd rhai timau sgyrsiau ffôn dilynol gydag ymchwilwyr gweithredu ICC a gofynnodd rhai cyfranogwyr am gael hyfforddiant hwyluso er mwyn parhau i ddefnyddio gweithdy SIFT. Mae cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru wedi dangos diddordeb mewn defnyddio gweithdy SIFT eu hunain.

Mae gweithdy SIFT bellach yn barod i'w hyrwyddo, ei brofi a'i wella'n ehangach. Fe'ch anogwn i hwyluso gweithdy. Caiff eich holl adborth ei ystyried a bydd yn helpu i wneud gweithdy SIFT yn fwy gwerthfawr nawr ac yn y dyfodol.

# Amcanion Dysgu

## Diben

Prif ddiben gweithdy SIFT yw galluogi timau i gamu'n ôl o ofynion eu gwaith pob dydd ac yn hytrach ganolbwyntio ar nodi gwelliannau y gallant eu gwneud mewn perthynas â'r pum ffordd o weithio:

- gwelliannau hirdymor er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni Deddf 2015 o fewn amcanion y tîm;
- camau sy'n cyfrannu at atal problemau;
- sut i gynnwys ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus, pobl leyg a'r rhai nad ydynt wedi'u cynnwys ar hyn o bryd neu y mae'n anodd eu cyrraedd;
- cydweithio ar draws ffiniau er mwyn sicrhau synergedd a chefnogi'r gwaith o gyflawni syniadau ar gyfer gwelliannau;
- canlyniadau sy'n llywio newid ar bob lefel ac a gaiff eu hintegreiddio yn y pen draw mewn ffyrdd newydd o weithio er mwyn cefnogi newid o ran systemau a diwylliant.

## Buddiannau

Dyma fuddiannau sesiwn gweithdy SIFT:

- galluogi pob tîm i **ddangos y ffordd mae'n defnyddio'r pum ffordd** o weithio yn ei waith;
- cefnogi timau i **nodi gwelliannau seiliedig ar gryfderau mewn ffordd greadigol yn seiliedig ar wybodaeth ac arbenigedd y tîm;**
- grymuso timau i **ddarparu arweinyddiaeth ysbrydoledig**, oherwydd mater i'r timau yw penderfynu ar y gwelliannau gwirioneddol a sut y cânt eu cyflawni;
- rhoi'r **amser i dimau gyfrannu** at welliannau yn eu meysydd gwaith arbenigol.

## Deilliannau dysgu

Dyma ddeilliannau dysgu gweithdy SIFT i'r cyfranogwyr:

- dysgu am y pum ffordd o weithio ac arbrofi wrth eu cymhwyso at syniad ar gyfer gwelliant mewn lleoliad cefnogol;
- deall bod timau ac unigolion wedi'u grymuso i ddarparu arweinyddiaeth wrth ymgorffori'r pum ffordd o weithio yn eu gweithgareddau dyddiol;
- cydnabod bod timau ac unigolion yn arbenigwyr ac y gallant ddarparu arweinyddiaeth drwy gynnig syniadau ar gyfer gwelliannau;
- amlinellu cynllun gweithredu drafft cyntaf mewn perthynas â syniad ar gyfer gwelliant;
- ymrwymo i waith pellach i lunio fersiwn derfynol y cynllun gweithredu; neu
- drefnu cyflawni, adolygu a rhannu'r gwersi a ddysgwyd o'r syniad ar gyfer gwelliant.

## Dysgu newid ymddygiad

Mae'n ddefnyddiol i gyfranogwyr nodi'r gwahaniaeth rhwng y canlynol:

a. Gwybodaeth – yn hanesyddol prif ffocws gweithdai sefydliadol a hwylusir gan 'addysgu'. Gofynnir i dimau ddysgu am Ddeddf 2015, y pum ffordd o weithio a sut y gall y diben cyffredin hwn gael ei ymgorffori yng ngwaith y tîm i ddiogelu llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

   Mae'r adnoddau ar Ddeddf 2015 ar gael i'ch helpu i wella eich gwybodaeth am y problemau

sy'n wynebu Cymru a pham mae'r pum ffordd o weithio yn helpu i gyflawni'r nodau llesiant a amlinellir yn y Ddeddf. Caiff yr adnoddau hyn eu hamlinellu ar ddechrau'r gweithdy SIFT cyntaf a gall cwestiynau gael eu trafod â rheolwyr llinell unrhyw bryd.

b. Sgiliau - yn ei gwneud yn bosibl i gymhwyso gwybodaeth ac yn gofyn am ymgysylltu ac ymarfer llawn. Gofynnir i dimau ymarfer cymhwyso'r pum ffordd o weithio ym mhob rhan o'u gwaith, gan ddechrau gydag un syniad ar gyfer gwelliant.

   Yn aml eich cydweithwyr yw'r bobl orau i ddysgu oddi wrthynt a dangoswyd bod dysgu sgiliau rhwng cymheiriaid yn effeithiol iawn i'r athro a'r dysgwr. Mae gweithdy SIFT yn eich annog i ymgysylltu, ymarfer a rhannu dysgu wrth gymhwyso'r pum ffordd o weithio o fewn eich tîm eich hun ac yn ehangach ar draws y sefydliad.

c. Ymddygiadau - ymgorffori cynaliadwyedd mewn ymarfer dyddiol, ni waeth beth yw'r ymarfer hwnnw, a thros amser newid y ffordd mae timau a sefydliadau yn gweithio. Gofynnir i dimau ymgysylltu, dysgu ac ymgorffori'r pum ffordd o weithio mewn ymarfer dyddiol er mwyn dylanwadu ar ganlyniadau a'u newid.

   Mae angen i'r ffordd mae sefydliadau yn gweithio ar hyn o bryd newid ar fyrder er mwyn diogelu ein llesiant yn y dyfodol. Bydd y pum ffordd o weithio, os cânt eu hymarfer a'u cymhwyso, yn sefydlu diwylliant cyffredin lle mae pob corff cyhoeddus yn gweithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Mae'r newid o ran diwylliant yn dechrau gyda chi, heddiw.

## Dull gweithredu cyfranogol

Bwriedir i weithdy SIFT ysgogi angerdd, arbenigedd ac ymroddiad timau mewn cyrff cyhoeddus. Wrth wraidd y gweithdy mae proses tîm cyfranogol. Mae ar gyfer timau neu grwpiau o bobl sy'n gweithio gyda'i gilydd ar nod a rennir mewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Datblygwyd gweithdy SIFT yn seiliedig ar adolygiad o lenyddiaeth a edrychodd ar y ffordd mae sefydliadau yn dysgu, yn gwella ac yn newid. Mae'r canfyddiadau allweddol yn dangos bod newid yn digwydd yn fwy effeithiol pan fo arweinyddiaeth yn cael ei dosbarthu'n eang, felly mae galluogi timau i arbrofi mewn amgylchedd lle na chaiff methiant ei gosbi yn hanfodol er mwyn nodi a threialu gwelliannau a all gael eu cyflwyno'n ehangach wedyn. Bwriedir i weithdy SIFT fod yn iteraidd ac mae'n cynnwys y bobl sy'n gyfarwydd â materion allweddol ac sy'n deall y gwaith a'r amgylchedd gwaith. Bydd tîm yn edrych ar ei waith presennol o safbwynt y pum ffordd o weithio neu'n cymhwyso'r pum ffordd o weithio at brosiectau newydd. Dylai cynifer o'r tîm â phosibl gymryd rhan.

## Gwelliant parhaus

Gwahoddir timau i rannu syniadau ar gyfer diwygiadau a gwelliannau i weithdy SIFT â Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hyn yn annog ymdeimlad o berchenogaeth ac yn sicrhau bod gweithdy SIFT yn ddefnyddiol. Y prif ffocws yw bod timau yn dysgu i ymgorffori'r pum ffordd o weithio a rhannu eu profiadau er mwyn ysbrydoli eraill. Gall timau deilwra gweithdy SIFT yn ôl eu hanghenion eu hunain wrth iddynt wella eu dealltwriaeth a'u ffordd o gymhwyso'r pum ffordd o weithio, a dechrau gweld canlyniadau prosiectau gwella. Er enghraifft, gall timau ddewis ailedrych ar elfennau penodol o weithdy SIFT ac efallai na fydd angen gwneud y gweithdy cyfan bob tro.

## Sut mae SIFT yn wahanol?

Mae'r dull gweithredu a ddefnyddir yma yn debyg iawn i gylchoedd 'Cynllunio Gwneud Astudio Gweithredu' (PDSA), y byddwch eisoes yn gyfarwydd â nhw efallai. Yn wir, mae llawer o ddulliau rheoli yn rhannu nodweddion arbrofi iteraidd. Yng ngweithdy SIFT, rydym wedi ceisio dwyn ynghyd dair set o syniadau:

- Y pum ffordd o weithio o Ddeddf 2015;
- Technegau cyfranogol er mwyn defnyddio gwybodaeth arbenigol ac annog arweinyddiaeth ddosbarthedig ar draws y sefydliad;
- Ymgorffori dull o gyflawni gwelliant parhaus drwy ddatblygu cynaliadwy.

Mae gweithdy SIFT yn gyson â dulliau gweithredu eraill y gall timau eu defnyddio, er mae'n ceisio bod mor hyblyg â phosibl ac yn gymwys i wahanol sefyllfaoedd. Drwy wneud hyn, gobeithio y bydd yn gweithio ochr yn ochr â llawer o adnoddau a thechnegau gwella sydd ar gael i staff a sefydliadau eisoes.

## Yr agweddau ymarferol ar weithdy SIFT

Mae'n gwbl briodol i dimau wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch yr agweddau ymarferol ar gynnal gweithdy SIFT a'i fuddiannau. Fodd bynnag, mae profion cynnar wedi dynodi bod rhai ffactorau sy'n helpu i wneud y gweithdy yn fwy cynhyrchiol. Rhennir y rhain isod.

### Y Lle

Bydd angen lle arnoch sydd fel a ganlyn:

- yn gweithio i'r tîm cyfan (efallai y bydd yn ddefnyddiol i rai timau fod mewn lleoliad gwahanol i'r arfer, er mwyn darparu lle creadigol, tra bydd eraill yn ei chael hi'n fwy ymarferol cyfarfod yn agos i'w gweithle)
- yn ddigon mawr i symud o gwmpas
- yn sbarduno creadigrwydd drwy ddarparu digon o olau ac aer
- yn cynnwys seddi a byrddau sy'n golygu y gellir cynnal trafodaethau grŵp llai, yn ogystal â sgyrsiau rhwng y tîm cyfan
- â lle ar y wal i arddangos eich gwaith yn ystod y gweithdy
- â thaflunydd a/neu sgrin yn ddelfrydol

### Beth fydd ei angen arnoch

✓ Papur siart troi
✓ Nodiadau post-it
✓ Beiros
✓ Y cardiau sbardun a ddarperir gyda'r canllaw hwn
✓ Taflunydd neu sgrin
✓ Gliniadur
✓ Lluniaeth (os oes angen)

# Rolau gweithdy SIFT

Mae gweithdy SIFT yn rhedeg orau pan rennir rolau amrywiol ymhlith y cyfranogwyr, gan gytuno arnynt ymlaen llaw. Drwy wneud hyn, bydd tîm yn cydweithio i sicrhau bod gweithdy SIFT o fudd iddo:

Bydd **trefnydd y gweithdy** yn anfon y gwahoddiadau (Atodiad A) a'r canllaw hwn at bawb o leiaf 4 wythnos cyn y gweithdy, ac yna'n archebu'r ystafell ac unrhyw luniaeth. Bydd y trefnydd hefyd yn gweithio gydag arweinydd y tîm ac aelodau eraill o'r tîm fel sy'n briodol er mwyn cwblhau proffil y tîm (Atodiad B). Mae hwn yn gofyn i reolwr y tîm roi syniad o hyder y tîm o ran defnyddio'r pum ffordd o weithio cyn y gweithdy, lle y bo ar gael, darparu tystiolaeth o hyn (astudiaethau achos, adroddiadau neu werthusiadau prosiect er enghraifft) a nodi ffocws y gweithdy. Dylai'r holiadur wedi'i gwblhau gael ei anfon at hwylusydd y gweithdy bythefnos cyn y gweithdy. Efallai y bydd angen i'r trefnydd atgoffa cyfranogwyr i gadarnhau eu presenoldeb a darllen yr adnoddau cyn y gweithdy, ac atgoffa'r rheolwr i ddychwelyd holiadur y tîm. Ar y diwrnod, bydd y trefnydd yn sicrhau bod deunyddiau addas ar gael fel siart troi, nodiadau post-it, ffurflenni adborth wedi'u hargraffu (Atodiad C), ac yn paratoi grid sy'n amlinellu'r pum ffordd o weithio yr ychwanegir nodiadau post-it ato drwy gydol y gweithdy (templed yn Atodiad D).

Bydd **hwylusydd y gweithdy** yn bwrw golwg dros broffil y tîm bythefnos cyn y gweithdy er mwyn sicrhau bod ffocws clir. Ar y diwrnod, bydd yr hwylusydd yn mynd dros yr agenda ar ddechrau'r sesiwn, yn sicrhau bod pawb yn cytuno ar y telerau ymgysylltu, yn egluro pob ymarfer a, thrwy gydol y gweithdy, yn sicrhau bod pob unigolyn yn gallu mynegi ei hun ym mhob ymarfer, nad oes un llais yn dominyddu, bod pob syniad yn cael ei ystyried, a bod pob ymarfer yn cael ei gwblhau erbyn y diwedd.

Bydd **unigolyn yn cadw llygad ar y cloc** er mwyn sicrhau bod pob rhan o'r agenda yn cadw at yr amser dynodedig – mae hon yn rôl heriol ac mae'n bwysig atgoffa cyfranogwyr mai dim ond rhoi syniad o'r math o drafodaethau rheolaidd y mae angen i dimau eu cynnal er mwyn dysgu i ymgorffori'r pum ffordd o weithio yn eu holl waith a wna gweithdy dwy awr SIFT. Mae'n bwysig cadw at yr amser er mwyn darparu profiad llawn. Mae'n debygol mai dim ond fframwaith syniad ar gyfer gwelliant y bydd y gweithdy yn ei gynhyrchu ac y dylid treulio amser ychwanegol mewn cyfarfodydd tîm pellach yn ehangu, yn cyfleu, yn recriwtio cydweithredwyr ac yn paratoi i gyflawni'r syniad ar gyfer gwelliant.

Bydd **unigolyn yn gwneud nodiadau** ac yn nodi'r prif bwyntiau a drafodir yn ystod y cyfarfod. Wrth i chi fynd drwy'r canllaw hwn, byddwch yn gweld symbol 'nodiadau' gyda chyfarwyddiadau ynghylch yr hyn i'w gofnodi a sut. Byddwch yn cwblhau Tabl y Pum Ffordd o Weithio (Atodiad D) a dau gwestiwn cyntaf Cofnod Gweithredu'r Tîm (Atodiad E) yn y gweithdy. Cadwch y rhain yn ddiogel ar gyfer sesiwn ddilynol eich tîm.

# GWEITHDY SIFT

Gobeithio y bydd gweithdy SIFT yn eich helpu i: ddarganfod eich cryfderau a'ch llwyddiannau gyda'ch gilydd; cymhwyso'r rhain mewn atebion neu welliannau creadigol mewn maes sy'n bwysig i chi; profi'r rhyddid i arbrofi gyda gwahanol atebion ar lefel leol; cyfrannu'n ystyrlon at welliannau yn eich maes gwaith; a chynnig profiad grymusol i'ch tîm.

## Dull gweithredu cytûn




Mae'r rhan fwyaf o weithdai yn dechrau drwy gytuno ar ddull gweithredu i bob cyfranogwr ei ddilyn drwy gydol y gweithdy. Nod gweithdy SIFT yw creu deialog gydweithredol, lle na cheir hierarchaeth, ac mae'n argymell y canlynol o leiaf ar gyfer pob cyfranogwr. Gellir addasu a gwella hyn os bydd y tîm o'r farn bod angen gwneud hynny.

Agwedd
- Bod yn bresennol ac wedi ymgysylltu
- Bod yn onest
- Bod wedi'ch grymuso i rannu eich syniadau

Cyfathrebu
- Gwrando mewn ffordd adeiladol a bod yn barod i feddwl yn wahanol i'r arfer
- Rhannu'r holl wybodaeth berthnasol
- Bod yn amserol ac yn gryno wrth gyfathrebu

Ethos
- Peidio â gwrthod ystyried unrhyw syniadau
- Rhoi cyfle cyfartal i bawb leisio barn
- Defnyddio cyn lleied o jargon â phosibl

Ysgrifennwch y dull gweithredu cytûn ar ddarn o bapur siart troi a'i osod lle gall pawb ei weld drwy gydol y gweithdy.



Pan benderfynir ar y dull gweithredu cytûn, bydd yr hwylusydd yn mynd dros yr agenda ar gyfer y gweithdy, gan ddefnyddio'r ffeithlun ar dudalen 3. Cymerwch funud i ateb y ddau gwestiwn cyntaf ar y ffurflen adborth (Atodiad C).

# Adolygiad o lenyddiaeth ac adnoddau




Bydd hwylusydd y gweithdy yn dechrau drwy atgoffa pawb am nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Deddf 2015) a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, neu'r pum ffordd o weithio, y gofynnir i dimau eu hymgorffori yn eu gwaith. Cynhelir trafodaeth fer a gellir gofyn unrhyw gwestiynau.

Yn ôl Deddf 2015, mae a wnelo datblygu cynaliadwy â'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant. Nid yw datblygu cynaliadwy wedi'i gyfyngu i drafodaethau ynghylch yr amgylchedd, adnoddau a llygredd, ac ni chaiff ei arwain gan adrannau fel Ystadau a Chaffael yn unig ychwaith; mae datblygu cynaliadwy yn fater i bawb. Mae gan eich gwaith beunyddiol botensial enfawr i gefnogi dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i lesiant nawr ac yn y dyfodol. Mae cyfrifoldeb ar bob aelod o staff i ymgorffori cynaliadwyedd yn ei waith er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Efallai y bydd y crynodeb o'r Adolygiad o Lenyddiaeth ar y pum ffordd o weithio, a'r adnoddau eraill a rennir cyn y gweithdy, yn eich ysbrydoli ac yn eich helpu i ddeall a chymhwyso dysgu newydd at eich gwaith.

# Darganfod




Yn unigol, treuliwch 5 munud yn nodi lle rydych eisoes yn defnyddio pob un o'r pum ffordd o weithio:


**Hirdymor**


**Atal**


**Integreiddio**


**Cydweithio**


**Cynnwys**

Ysgrifennwch enghreifftiau allweddol ar nodiadau post-it ar wahân. Ychwanegwch eich nodiadau post-it at dabl o'r pum ffordd o weithio ar bapur siart troi, neu efallai y bydd yn well gennych ddefnyddio darn o bapur siart troi ar wahân ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio. Gyda'i gilydd, bydd y tîm wedyn yn gosod y nodiadau post-it mewn pentyrrau o faterion tebyg. Bydd y papur siart troi hwn i'w weld drwy gydol y gweithdy. Ceir trafodaeth fer yn nodi unrhyw ailadrodd a chytundeb ynghylch pa feysydd sy'n gryfach neu'n wannach nag eraill.

Pam gwneud hyn?: Mae tystiolaeth o'r adolygiad o lenyddiaeth yn awgrymu bod canolbwyntio ar gryfderau, asedau neu bethau a wneir yn dda nawr yn brofiad mwy boddhaol i dimau ac yn arwain at well canlyniadau ar gyfer gwella; gelwir hyn yn Ymholi Gwerthfawrogol.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cofnodi'r enghreifftiau allweddol o sut mae'r pum ffordd o weithio eisoes yn cael eu defnyddio yn eich tîm er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol.

# Breuddwydio ac Ymchwilio

Mae proffil y tîm a gwblhawyd cyn y gweithdy wedi nodi maes i'r tîm ganolbwyntio arno, sef naill ai rhywbeth mae'r tîm yn ei wneud yn dda gyda'i gilydd, blaenoriaeth, neu broblem barhaus neu bosibl yn y dyfodol. Yn nwy ran nesaf y gweithdy, byddwch yn edrych ar y maes ffocws hwn o safbwynt y pum ffordd o weithio er mwyn datblygu syniad ar gyfer gwelliant cynaliadwy.

Y cam hwn ar weithdy SIFT yw'r mwyaf heriol yn aml. Mae'n gofyn am ddiystyried hanes, cyfyngiadau presennol a dynameg er mwyn nodi gwelliannau posibl. Drwy weithredu y tu hwnt i ddynameg tîm presennol gellir bod yn llawer mwy creadigol. Y peth gorau i'w wneud yw cadw meddwl agored a gwerthfawrogi pob awgrym. Y nod yw dwyn ynghyd gynifer o syniadau â phosibl ynghylch y gwelliant a ddewiswyd mewn ffordd anfeirniadol, gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio i nodi camau gweithredu. Anogir creadigrwydd ac arloesedd!

Wrth i chi symud drwy gamau Breuddwydio ac Ymchwilio a Dylunio'r gweithdy, gwnewch nodiadau o'r drafodaeth yn y tabl a ddarperir yn Atodiad D. Efallai y bydd hyn yn haws yn electronig os gallwch ddefnyddio taflunydd i ddangos y tabl wrth i chi deipio.

Yn dibynnu ar faint eich tîm, efallai y bydd yn well gennych drafod y cwestiynau mewn grwpiau bach er mwyn annog pawb i ddweud eu dweud. Os felly, bydd angen i'r unigolyn sy'n cadw llygad ar y cloc sicrhau bod digon o amser i'r grwpiau roi adborth i'r tîm cyfan cyn symud ymlaen i'r rhan nesaf.

Ar y cam breuddwydio ac ymchwilio, defnyddiwch y cardiau sbardun i'ch helpu i feddwl am syniadau newydd ar ôl y don gyntaf o syniadau. I wneud hyn dilynwch y broses ganlynol:



Ar ôl rownd gychwynnol yn cwblhau Hirdymor ac Atal, gofynnwch i bob aelod o'r tîm ddewis un o'r cardiau **coch** er mwyn sbarduno mwy o syniadau.

Ar ôl rownd gychwynnol yn cwblhau Cynnwys a Chydweithio, gofynnwch i bob aelod o'r tîm ddewis un o'r cardiau **melyn** er mwyn sbarduno mwy o syniadau.

Ar ôl rownd gychwynnol yn cwblhau Integreiddio, gofynnwch i bob aelod o'r tîm ddewis un o'r cardiau **glas** er mwyn sbarduno mwy o syniadau.

Defnyddiwch y cwestiynau isod i ganolbwyntio ar bob un o'r pum ffordd o weithio yn eu tro. Defnyddiwch ymchwil i'ch ysbrydoli, edrychwch dros yr adnoddau cyn y gweithdy, enghreifftiau byd-eang a phrofiadau'r tîm, neu gallwch hyd yn oed ystyried 'Petai unrhyw beth yn bosibl byddem yn.....'

| Pum ffordd o weithio | Syniadau – awyr las/breuddwydion | Nodiadau |
|---|---|---|
| Hirdymor | Pa newidiadau sydd eu hangen arnom er mwyn cefnogi gwelliant hirdymor?<br><br>Pa dystiolaeth sydd gennym?<br><br>A yw'n adeiladu ar yr hyn sydd wedi bod o'r blaen?<br><br>Am ba mor hir y bydd yn ddefnyddiol? | |
| Atal | Sut mae cymryd camau seiliedig ar gryfderau?<br><br>Ble rydym wedi llwyddo o'r blaen?<br><br>A allwn wneud rhywbeth sy'n helpu i atal pethau rhag gwaethygu? | |
| Cynnwys | Sut mae cynnwys buddiolwyr, defnyddwyr gwasanaethau, dinasyddion a rhanddeiliaid eraill er mwyn ystyried eu syniadau?<br><br>Sut mae gweithio gyda rhanddeiliaid fel cydgynhyrchwyr, cynyddu eu perchenogaeth a'u hymdeimlad o rymuso? | |
| Cydweithio | Gyda phwy mae angen i ni weithio er mwyn gwneud y gwelliant hwn?<br><br>A allwn ddysgu oddi wrth eraill?<br><br>A all cydweithio ein helpu, yn enwedig â phartneriaid annisgwyl? | |
| Integreiddio | Pa syniadau/camau gweithredu a allai fynd i'r afael â'r ffocws hwn ac sy'n berthnasol i flaenoriaethau eraill? | |

# Dylunio




Caiff y cam hwn ar weithdy SIFT ei neilltuo i nodi canlyniadau a mesurau, ac i ddiffinio cynllun gweithredu. Drwy dreulio tua 10 munud ar bob adran gallwch greu cynllun gwella amlinellol, ond bydd angen neilltuo mwy o amser fel tîm i lunio'r fersiwn derfynol.

**Canlyniadau:** Defnyddiwch y cwestiynau isod i ganolbwyntio ar bob un o'r pum ffordd o weithio yn eu tro ac ewch ati i lunio canlyniadau sy'n deillio o'r gwelliant. Mae disgrifio sut beth yw da yn fan cychwyn defnyddiol.

| Y pum ffordd o weithio | Canlyniadau | Nodiadau |
|---|---|---|
| Hirdymor | Sut y bydd y syniad hwn yn arwain at welliant hirdymor?<br><br>Sut olwg fydd arno ymhen 2/5/10/20 mlynedd? | |
| Atal | Pa broblemau rydym yn ceisio eu hatal neu eu hatal rhag gwaethygu?<br><br>A ydym yn creu unrhyw broblemau gyda'r syniad hwn? | |
| Cynnwys | Pwy rydym am eu cynnwys er mwyn cytuno ar yr hyn sy'n gyfystyr â gwelliant?<br><br>A oes gan unrhyw un arall arbenigedd y gallwn ddysgu ohono? | |
| Cydweithio | Pa sefydliadau neu ddefnyddwyr gwasanaethau eraill sydd â diddordeb yn y gwelliant hwn?<br><br>Pa randdeiliaid eraill all helpu i gyflawni canlyniadau a sut? | |
| Integreiddio | Sut y bydd y syniad hwn yn ein helpu i gyflawni rhai o'n hamcanion neu flaenoriaethau eraill? | |

**Mesurau:** Nesaf, eglurwch sut mae angen i'r gwelliant gael ei fesur er mwyn dangos tystiolaeth o gynnydd ac a allech ddefnyddio data presennol neu ddata gan gydweithwyr a chydweithredwyr, yn feintiol ac yn ansoddol.

| Y pum ffordd o weithio | Mesurau | Nodiadau |
|---|---|---|
| Hirdymor | Ar ba gamau rydym am gael adborth ar gynnydd a chanlyniadau?<br><br>Beth yw'r prif gerrig milltir a beth yw'r amserlenni?<br><br>A fydd mesurau yn newid dros amser? | |
| Atal | Sut y gallwn sefydlu cylch hunanwerthuso rheolaidd?<br><br>Sut y byddwn yn gwybod a brofir effeithiau andwyol? | |
| Cynnwys | Sut y gallwn sicrhau bod rhanddeiliaid y syniad ar gyfer gwelliant yn gallu cytuno pa adborth sy'n bwysig ac yn gallu darparu hyn?<br><br>A pha mor aml?<br><br>A chyda pha gymorth?<br><br>Sut mae rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid? | |
| Cydweithio | Sut mae datblygu dull cynhwysol o ran adborth a hunanwerthuso?<br><br>Sut mae dysgu oddi wrth eraill sy'n casglu adborth gan grwpiau tebyg? | |
| Integreiddio | Sut y gallwn ddefnyddio data a gesglir o fentrau eraill neu ar gyfer amcanion eraill?<br><br>Sut mae adborth ar y syniad hwn yn creu dysgu sefydliadol?<br><br>Sut rydym yn gwybod nad ydym yn gwrth-ddweud unrhyw amcanion sefydliadol eraill? | |

**Cynllun diffiniedig:** Yn olaf, diffiniwch gynllun gweithredu ar gyfer y gwelliant mewn perthynas â phob un o'r pum ffordd o weithio.

| Y pum ffordd o weithio | Cynllun Gweithredu Diffiniedig | Nodiadau |
|---|---|---|
| Hirdymor | Beth ddylai ein cynllun fod dros yr ychydig flynyddoedd nesaf?<br><br>Pa gamau y dylid eu cymryd gyntaf?<br><br>Pryd y gallwn drefnu dechrau gweithio ar hyn? | |
| Atal | Pa weithgaredd y gallem ddechrau gydag ef ac yna ddysgu oddi wrtho? | |
| Cynnwys | Sut y gallem lunio ein cynllun ar gyfer gwelliant ar y cyd â rhanddeiliaid? | |
| Cydweithio | Pwy sydd angen gwneud beth erbyn pryd er mwyn gweithredu ein cynllun?<br><br>Sut y bydd rhanddeiliaid gwahanol yn atebol? | |
| Integreiddio | Sut y gallwn gynllunio'r gweithgaredd hwn mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau ei fod yn cael ei ymgorffori neu brif ffrydio yn ein sefydliad? | |

Pan fydd y broses ddylunio ar ben, dylai pob aelod o'r tîm ddewis cerdyn sbardun o unrhyw liw ar hap a gweld a yw'n arwain at unrhyw syniadau olaf i'w hychwanegu at y gymysgedd cyn gorffen. Nodwch, hyd yn oed os nad y testun ar y cerdyn sy'n arwain at y syniad, croesewir unrhyw syniadau olaf eraill ar y cam hwn hefyd.



# Y camau nesaf

Ar ôl amlinellu cynllun gweithredu, bydd angen i'r tîm wneud rhagor o waith er mwyn datblygu'r syniad ar gyfer gwelliant a'i gyflawni. Mae pennod nesaf y canllaw hwn yn amlinellu rhai camau defnyddiol y gall timau fod am eu cymryd efallai a dylid trefnu gwneud gwaith ar hyn yn fuan ar ôl gweithdy SIFT.

Rhydd camau olaf gweithdy SIFT y cyfle i gael trafodaeth fer am y camau nesaf y bydd angen i'r tîm eu cymryd.

Cofnodwch y meysydd cytûn ar gyfer camau a nodau yn y dyfodol drwy gwblhau cwestiynau 1 a 2 o Gofnod Gweithredu'r Tîm (Atodiad E). Efallai y byddwch hefyd am gofnodi rhywfaint o'ch ateb i gwestiwn 3; fodd bynnag, argymhellwn sesiwn ddilynol yn fuan ar ôl gweithdy SIFT er mwyn manylu ar y camau y mae'r tîm wedi ymrwymo iddynt.

# Myfyrdodau ac adborth

Cwblhewch eich ffurflenni adborth a sicrhewch eu bod yn cael eu dychwelyd. Diolch!

# Gorffen

Diolch am roi o'ch amser i gymryd rhan yng ngweithdy SIFT a chynyddu eich gallu i ymgorffori'r pum ffordd o weithio yn eich tasgau beunyddiol. Mae'r Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd yn edrych ymlaen at glywed eich syniadau ar gyfer gwelliant. Gallwch gysylltu â ni yn cynaliadwyedd.iechydcyhoeddus@wales.nhs.uk

# GWAITH DILYNOL Y TÎM

## Datblygu a Chyflawni

Mae'r syniad ar gyfer gwelliant a nodwyd yn debygol o fod angen cyfarfod tîm pellach er mwyn llunio'r cynllun gweithredu terfynol a nodi'n fanwl sut y caiff ei gyflawni. Weithiau efallai na fydd gan dimau reolaeth dros holl elfennau syniadau ar gyfer gwelliant. Os felly, mae'n ddefnyddiol sicrhau bod y syniadau ar gyfer gwelliant yn cyd-fynd ag amodau presennol, neu gydweithio ag eraill y mae angen eu mewnbwn er mwyn cyflwyno gwelliant. Er mwyn datblygu'r syniad ar gyfer gwelliant er mwyn ei gyflawni, gall y cwestiynau canlynol helpu:

| **Syniad ar gyfer gwelliant:** | |
|---|---|
| Cwestiynau datblygu | Ymatebion |
| A yw'n ddiogel gwneud hyn? | Nac ydy - Dim Gweithredu, dewiswch faes arall i fynd i'r afael ag ef<br>Ydy - Caniatâd gan bwy sydd ei angen arnom? |
| Ble y gallwn weithredu'r gwelliant hwn? | |
| Pryd y gallwn weithredu'r gwelliant hwn? | |
| A yw'r gwelliant hwn yn cydymffurfio â gofynion sefydliadol fel y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, Polisïau Moeseg ac ati? | |
| A oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â'r gwelliant hwn?<br>Os oes, cwblhewch asesiad risg â chamau lliniaru, a'i gymeradwyo fel rhan o'r broses gydsynio. | |
| A yw'r gwelliant hwn yn dibynnu ar unrhyw ffactorau eraill? | |
| Pa mor hir y bydd yn ei gymryd i gwblhau'r gwelliant hwn? | |
| Pa rwystrau sy'n atal y gwelliant hwn? | |
| Pa atebion y gellir dod o hyd iddynt er mwyn dileu unrhyw rwystrau a nodwyd? | |

Pan fydd gennych gynllun gweithredu clir a manwl, cwblhewch gwestiwn 3 o Gofnod Gweithredu'r Tîm (Atodiad E) a phennwch ddyddiad adolygu.

**Cyflawni**

Dylai'r syniad ar gyfer gwelliant gael ei gyflawni dros y 3-5 mis ar ôl gweithdy SIFT.

# Adolygu

Ar ôl ei gyflawni, mae pedwar canlyniad posibl y gellir eu cofnodi:

**Derbyn**
Mae'r adborth yn dangos bod y gwelliant yn gweithio, yn ôl pob tebyg. Gellir ei ehangu. Rhannwch y dystiolaeth ac ymgorfforwch y syniad mewn gwaith i ddod.

**Ansicr**
Mae'r gwelliant yn addawol ond nid yw'r adborth yn darparu digon o sicrwydd eto ei fod yn gweithio yn ôl y bwriad. Gall fod angen gwneud newidiadau bach a mireinio'r gwelliant ei hun neu'r broses adborth. Daliwch ati a phennwch ail ddyddiad adolygu.

**Rhwystrau**
Roedd rhwystrau ymarferol a oedd yn golygu na ellid cyflawni'r gwelliant. Cofnodwch a rhannwch y rhwystrau fel bod modd sicrhau dysgu sefydliadol.

**Gwrthod**
Nid yw'n ymddangos bod y gwelliant yn gweithio. Rhowch y gorau iddo. Meddyliwch am sut i fynd i'r afael â'r mater mewn ffordd wahanol, efallai drwy gynnwys rhanddeiliaid gwahanol ac aseswch a oes modd ailddylunio'r gwelliant a'i gyflawni rywbryd eto.

Ystyriwch y cwestiynau canlynol er mwyn adolygu eich syniad ar gyfer gwelliant ar ôl ei gyflawni:

| **Syniad ar gyfer gwelliant:** | |
|---|---|
| Cwestiynau adolygu | Ymatebion |
| Beth oedd y mesurau o ran cynnydd? | |
| Pa mor dda y cyflawnwyd y canlyniadau? | |
| A oedd unrhyw rwystrau i newid? | |
| I ba raddau mae'r syniad ar gyfer gwelliant wedi gweithio yn ôl y bwriad? | |
| Argymhelliad yn seiliedig ar y dystiolaeth uchod (derbyn/ansicr/rhwystrau/gwrthod - gweler uchod) | |
| Â phwy y dylid rhannu'r dysgu: | |
| Camau nesaf (lle y bo'n gymwys): | |

# Rhannu

Mae'n bwysig iawn rhannu dysgu o ran cydweithio ac integreiddio syniadau ar gyfer gwelliant. Y nod yw dysgu llorweddol o fewn sefydliadau er mwyn cyflwyno ffyrdd newydd o feddwl am lwyddo a methu. Bwriedir i'r dull hwn o rannu:

- Fod yn syml
- Peidio â rhoi pwysau ar y tîm
- Ei gwneud hi'n bosibl i rannu dysgu â phobl eraill yn y sefydliad, a bod yn hygyrch i bawb

Mae cyfle i dimau eraill ddysgu o broses SIFT ac i'r sefydliad ddangos yn allanol sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i gweithredu, heb ei gwneud yn ofynnol i dimau adrodd ymhellach. Rhan o'r syniad sydd wrth wraidd gweithdy SIFT yw galluogi grwpiau o bobl sy'n arbenigwyr yn eu maes i rannu'r hyn sy'n gweithio'n dda, sut mae'r pum ffordd o weithio yn cael eu hymgorffori, unrhyw broblemau parhaus ac atebion posibl, a chreu rhwydwaith dysgu sydd o fudd i bawb.

Cwblhewch adran Adolygu Cofnod Gweithredu eich Tîm (Atodiad E) a'i hanfon i'r Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd er mwyn rhannu eich syniad ar gyfer gwelliant ynghyd â chanlyniadau gwirioneddol, canlyniadau mesurau ac unrhyw adborth a gwersi a ddysgwyd.

# Ailadrodd

Mae gweithdy SIFT yn seiliedig ar set syml iawn o syniadau sy'n helpu sefydliadau i ddysgu a gwella. Yn fwyaf pwysig mae'r syniad o iteriad (defnyddio cyfres o ddolenni i roi cynnig ar syniadau ar gyfer gwelliant a dysgu o'r canlyniadau). I iteru'n dda, gall fod yn ddefnyddiol gwneud y canlynol:

- Dechrau'n fach
- Defnyddio dolenni cyflym
- Casglu adborth ystyrlon, cynrychioliadol
- Iteru'n barhaus â diben parhaus
- Peidio â gadael i drefniadau biwrocrataidd eich llethu

Syniad allweddol o fewn SIFT yw bod datblygu dysgu a gwella ar y cyd yn sgìl y gall grwpiau ei ddysgu a'i fireinio drwy ei ymarfer. Bwriedir i weithdy SIFT, neu elfennau ohono, gael ei ailadrodd – tua bob chwe mis.

# ATODIADAU

**Atodiad A** - Gwahoddiad i'r Gweithdy

Pam? Amlinellu amcanion dysgu a gwybodaeth logistaidd

Pwy sydd ei angen? Trefnydd y gweithdy i'w anfon at y cyfranogwyr o leiaf bedair wythnos cyn dyddiad y gweithdy

**Atodiad B** - Adnodd Proffil y Tîm

Pam? Llywio ffocws y gweithdy a'i wneud yn ystyrlon i'r cyfranogwyr

Pwy sydd ei angen? I'w gwblhau gan reolwr y tîm a'i ddychwelyd at hwylusydd y gweithdy bythefnos cyn dyddiad y gweithdy

**Atodiad C** - Ffurflen Adborth (ar gael yn electronig hefyd)

Pam? Gwella pob gweithdy SIFT gydag adborth y cyfranogwyr

Pwy sydd ei angen? Hwylusydd y gweithdy i'w ddosbarthu i'r cyfranogwyr ar ddechrau'r sesiwn. Dylid ateb dau gwestiwn ar unwaith a chwblhau'r gweddill ar ddiwedd y sesiwn a dylid gadael y ffurflen gyda'r unigolyn sy'n gwneud nodiadau. Edrychir dros y ffurflenni adborth hyn ac fe'u hanfonir i'r Hwb i'w dwyn ynghyd.

**Atodiad D** - Tabl y Pum Ffordd o Weithio

Pam? Llywio'r tîm wrth iddo ymgorffori'r pum ffordd o weithio.

Pwy sydd ei angen? Bydd yr unigolyn sy'n gwneud nodiadau yn ei lenwi ar ran y tîm. Gofynnir i'r holl gyfranogwyr gofnodi eu syniadau a'u mewnbwn ac edrych dros y ffurflen er mwyn cadarnhau ei bod yn cynnwys y rhain ar ôl y gweithdy.

**Atodiad E** - Cofnod Gweithredu'r Tîm

Pam? Cofnodi'r hyn a ddigwyddodd, y canlyniadau a'r raddfa; a all syniad ar gyfer gwelliant gael ei ddosbarthu fel a ganlyn: Derbyn, Ansicr, Rhwystrau, Gwrthod.

Pwy sydd ei angen? Bydd yr unigolyn sy'n gwneud nodiadau yn cwblhau cwestiynau 1 a 2 yn y gweithdy. Dylai'r tîm enwebu arweinydd adolygu i'w gwblhau yn ystod sesiwn ddilynol.

# Atodiad A: GWAHODDIAD I'R GWEITHDY

## Gwelliannau Cynaliadwyedd ar gyfer Timau

Diolch am gytuno i gymryd rhan yng ngweithdy SIFT, a hwylusir gan

Enw: ______________________________ Teitl Swydd: ______________________________

Cynhelir y gweithdy am Amser ar ________, yn Lleoliad ____________________.

Rhowch wybodaeth ar luniaeth / anghenion bwyd a / neu fynediad / opsiynau teithio gwyrdd fel sy'n briodol.

## Cefndir

Caiff gweithdy SIFT ei lunio ar y cyd gan Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn cefnogi cyrff cyhoeddus i weithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy (y pum ffordd o weithio) yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r gweithdy wedi'i ddylunio ar sail yr egwyddor 'dechrau'n fach, gweithredu a dysgu, yna rhoi cynnig arall arni'.

Bydd y gweithdy yn para dwy awr. Gofynnir i chi rannu rhai o'ch profiadau proffesiynol a chyflawni cyfres o ymarferion er mwyn nodi sut y gallwn weithredu'r pum ffordd o weithio (hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys) wrth wella ein gwaith.

Drwy fod yn gyfarwydd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio gellir sicrhau bod y gweithdy yn canolbwyntio'n gyflym ar yr hyn sy'n bwysig i chi yn eich gwaith – felly rwyf wedi cynnwys canllaw SIFT gyda'r gwahoddiad hwn. Rhennir y canllaw yn dair rhan. **Treuliwch ychydig amser cyn y gweithdy i ddarllen y rhan gyntaf – 'Cefndir'. Bydd yn cymryd 30-90 munud i wneud hyn siŵr o fod.**

## Yn ystod y gweithdy

Bydd y gweithdy yn dilyn y strwythur a amlinellir yn y canllaw (gweler tudalen 3 am drosolwg hawdd). Yn ystod y gweithdy, gofynnir i chi:

- Fod yn agored i gyfrannu at y drafodaeth
- Ymrwymo i wneud gwaith dilynol ar y camau gweithredu y byddwch yn penderfynu eu cymryd

## Ar ôl y gweithdy

Bydd angen gwneud gwaith dilynol er mwyn ymgorffori ein dysgu a gweithredu ein syniad ar gyfer gwelliant. Trefnir hyn yn fuan ar ôl gweithdy SIFT.

Gobeithio y bydd y gweithdy yn ddefnyddiol ac edrychaf ymlaen at eich gweld chi yno.

# Atodiad B: ADNODD PROFFIL Y TIM

**Rheolwyr y Tîm / Gwasanaeth** - er mwyn sicrhau bod eich gweithdy SIFT yn cael ei hwyluso mewn ffordd sy'n diwallu anghenion y tîm, nodwch wybodaeth bresennol y tîm am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Deddf 2015) a'r pum ffordd o weithio. Efallai y byddwch am holi aelodau eraill o'ch tîm cyn ateb y cwestiynau.

**1.** Sawl aelod o staff sydd yn eich tîm? ________________

A oes gennych set o amcanion fel tîm? Oes ☐ Nac oes ☐

A yw'ch tîm mewn cysylltiad â defnyddwyr gwasanaethau? Ydy ☐ Nac ydy ☐

**2.** A ydych chi a'ch tîm wedi clywed am Ddeddf 2015 a'r pum ffordd gynaliadwy o weithio drwy:

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Facebook Staff | ☐ | Mewnrwyd ICC | ☐ | Digwyddiad Marketplace | ☐ | Arall: |
| Rhyngrwyd ICC | ☐ | Twitter | ☐ | Digwyddiad WEND | ☐ | |
| E-gylchlythyr y Staff | ☐ | Cyflwyniad gan Hwb | ☐ | E-bost mewnol | ☐ | |

**3.** Sut y byddech yn graddio gwybodaeth eich tîm am y pum ffordd o weithio yn Neddf 2015:

| Dim gwybodaeth o gwbl | Gwybodaeth sy'n datblygu | Gwybodaeth weithredol sylfaenol | Gwybodaeth dda | Gwybodaeth ardderchog |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**4.** Pa rai o'r pum ffordd o weithio sy'n gryfderau neu'n wendidau yn eich tîm?

| | Gwendid | Datblygu | Cryfder |
|---|---|---|---|
| **Hirdymor** | | | |
| **Atal** | | | |
| **Integreiddio** | | | |
| **Cydweithio** | | | |
| **Cynnwys** | | | |

**5.** A oes gennych unrhyw enghreifftiau (o'ch tîm) o'r pum ffordd o weithio - hirdymor, atal, cydweithio, cynnwys ac integreiddio (i lunio astudiaethau achos)?

Oes ☐ Nac oes ☐

**6.** I ba raddau mae'ch tîm i'w weld yn ymgysylltu â saith nod llesiant Deddf 2015 – **Cymru:** llewyrchus, cydnerth, iachach, mwy cyfartal, cymunedau cydlynus, diwylliant bywiog, yn gyfrifol ar lefel fyd-eang?

| Dim ymgysylltu | Ymgysylltu isel | Ymgysylltu sy'n datblygu | Ymgysylltu cymedrol | Ymgysylltu uchel |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**7.** Fel Rheolwr y Gwasanaeth / Tîm, beth rydych am ei gyflawni yn sgil gweithdy SIFT?

**8.** Pa effaith neu newid yr hoffech i'r tîm ei sicrhau ar ôl gweithdy SIFT?

**9.** A oes gennych unrhyw awgrymiadau am syniad ar gyfer gwelliant y gallai'r tîm ei ddatblygu gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio yn ystod y gweithdy?

**10.** A oes gennych unrhyw wybodaeth / awgrymiadau pellach er mwyn helpu'r hwylusydd i baratoi'r gweithdy?

# Atodiad C: FFURFLEN ADBORTH

Er mwyn ein helpu i adolygu gweithdy SIFT heddiw a'i rôl wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio, cwblhewch y ffurflen hon cyn i chi adael heddiw.

## Y 5 ffordd o weithio yw:

- **Hirdymor** Cydbwyso anghenion byrdymor a hirdymor
- **Atal** Nodi heriau'n gynnar a chymryd camau ataliol
- **Cynnwys** Cynnwys pobl eraill sydd â diddordeb yn eich gwaith a sicrhau eu bod yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal leol
- **Cydweithio** Ystyried sut y gallai cydweithio â phobl eraill helpu i gyflawni atebion cynaliadwy
- **Integreiddio** Sut mae ein hamcanion yn effeithio ar y nodau llesiant, ar ei gilydd a sefydliadau eraill (fel ein bod yn cyflawni ein hamcanion llesiant mewn ffordd integredig).

**1.** Cyn i ni ddechrau'r gweithdy, nodwch eich hyder o ran gweithio yn eich tîm gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio:

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Dim hyder o gwbl | | | | | | | | | Hyderus iawn |

**2.** Cyn i ni ddechrau'r gweithdy, nodwch beth sy'n digwydd yn eich tîm ar hyn o bryd.

| Ydych chi neu'ch tîm: | Bob amser | Weithiau | Byth |
|---|---|---|---|
| Yn cynnwys y pum ffordd o weithio yn eich amcanion fel tîm | | | |
| Yn cynnwys y pum ffordd o weithio yn eich amcanion personol | | | |

**3.** Gan feddwl am y ffyrdd o weithio a'r gweithdy heddiw, atebwch:

| **Cynnwys y gweithdy:** | **Fwy neu lai'n iawn** | **Gormod** | **Ddim digon** |
|---|---|---|---|
| A oedd faint o gynnwys a gyflwynwyd... | | | |
| A oedd dyfnder / cwmpas y sesiwn... | | | |
| A oedd y cynnwys rhyngweithiol... | | | |
| Roedd nifer y cyfleoedd i drafod... | | | |
| Yn ddefnyddiol i'm gwaith... | **Yn bendant** ☐ | **Yn rhannol** ☐ | **Ddim o gwbl** ☐ |
| **Amcanion y gweithdy** | **Yn llawn** | **Yn rhannol** | **Heb eu cyflawni** |
| Llwyddais i wella fy nealltwriaeth o'r pum ffordd o weithio... | | | |
| Llwyddais i wella fy sgiliau i ddefnyddio'r pum ffordd o weithio... | | | |

**4.** Pe bai angen i chi ddiwygio, addasu, neu ailgynllunio'r gweithdy hwn, beth fyddech chi'n ei newid?

**5.** Pa help ychwanegol fydd ei angen arnoch er mwyn rhoi'r hyn rydych wedi'i ddysgu yn yr hyfforddiant hwn ar waith er mwyn defnyddio'r pum ffordd o weithio yn eich tîm?

**6.** Nawr nodwch eich hyder, unwaith eto, o ran gweithio yn eich tîm gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio:

| **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Dim hyder o gwbl | | | | | | | | | Hyderus iawn |

# Atodiad D: TEMPLED TABL Y PUM FFORDD O WEITHIO

| | **Syniadau – awyr las/ breuddwydion** | **Canlyniadau** | **Mesur cynnydd** | **Cynllun diffiniedig** |
|---|---|---|---|---|
| Hirdymor | | | | |
| Atal | | | | |
| Cynnwys | | | | |
| Cydweithio | | | | |
| Integreiddio | | | | |

# Atodiad E: COFNOD GWEITHREDU'R TIM

| | |
|---|---|
| Sefydliad | |
| Enw'r Tîm | |
| Dyddiad | |

Dylai'r cofnod hwn gael ei gwblhau ar y cyd â thabl y Pum Ffordd o Weithio a gwblhawyd yn sesiwn SIFT.

**Pennu Nodau**

Rhestr fer o'r meysydd a nodwyd i weithredu arnynt yn y dyfodol o'n trafodaethau heddiw -

Ar ôl y trafodaethau heddiw, byddwn yn gweithio tuag at (nodau'r tîm) -

Byddwn yn cyflawni hyn drwy wneud (y camau yr ymrwymwyd iddynt) -

| | |
|---|---|
| Dyddiad adolygu | |

**Adolygu** (Gweler tudalen 21 o SIFT Canllaw Defnyddiol)
Beth y gwnaethoch roi cynnig arno?

Pa effaith gafodd hynny?

Pa rwystrau oedd i newid?

Ers i chi gwblhau gweithdy SIFT yn flaenorol, gallai pethau fod wedi newid. Efallai na fydd rhai meysydd a nodwyd yn berthnasol mwyach, neu efallai y byddwch wedi cyflawni eich nodau, a nawr mae angen i chi edrych ar feysydd eraill i weithio arnynt.

Beth yw penderfyniad eich tîm ar y newidiadau hyd yma?

| Derbyn | Ansicr | Rhwystrau | Gwrthod |
|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Beth rydym am ei wneud nesaf?

Beth mae angen i ni ei wneud yn wahanol y tro hwn?

**Nawr cynlluniwch eich rownd nesaf o newid ar Gofnod Gweithredu Tîm SIFT newydd.**

# SIFT

Gwelliannau Cynaliadwyedd i Dimau
Sustainability Improvements for Teams

**Canolbwynt Iechyd a Chynaliadwyedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru**
Ebost: cynaliadwyedd.iechydcyhoeddus@wales.nhs.uk
iechydcyhoedduscymru.org/cynaliadwyedd

**Gan ddiolch i:** Catherine Weatherup, Richard Lewis, Victoria Hands, Genevieve Riley, Rebecca Fogarty, Angie Kirby, Graham Leicester, Sumina Azam, Alisha Davies, Mark Bellis a'r holl dimau a helpodd i fireinio'r adnodd SIFT trwy ei brofi a thrwy roi adborth.

Medi 2019

ISBN: 978-1-78986-154-13
© Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru 2019.
Gellir atgynhyrchu deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored
www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/
ar yr amod ei fod yn cael ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.
Rhaid nodi cydnabyddiaeth i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Mae hawlfraint y trefniant, dyluniad a chynllun argraffyddol yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.